

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	19 Ebrill 2022
Pwnc:	Penodi Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 01248 752601 MarcJones@ynysmon.gov.uk
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Natur a Rheswm dros Adrodd: Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae angen i un rhan o dair o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fod yn aelodau lleyg. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor argymhell i'r Cyngor llawn gymeradwyo a chadarnhau penodiad y tri aelod lleyg ychwanegol sydd eu hangen a pharhad yr aelod lleyg presennol ar gyfer ail dymor o bum mlynedd.	

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno diwygiadau i'r drefn perfformiad a llywodraethiant, yn cynnwys newidiadau i gyfansoddiad aelodaeth pwyllgorau a gweithdrefnau (adrannau 116-118). Mae'r Ddeddf yn nodi bod angen:

- un rhan o dair o aelodau'r Pwyllgor yn unigolion lleyg a bod dwy ran o dair yn aelodau o'r Cyngor.
- bod aelod o'r Pwyllgor yn cael ei benodi gan y Pwyllgor fel Cadeirydd (a rhaid iddynt fod yn aelod lleyg); a
- rhaid i aelod o'r Pwyllgor gael eu penodi gan y Pwyllgor fel Is-gadeirydd (ac ni ddylent fod yn aelod o bwyllgor gwaith yr awdurdod lleol na'n gynorthwydd i'w bwyllgor gwaith).

1.2 Mae 'unigolyn lleyg' yn cael eu diffinio gan adran 117 o'r Ddeddf fel rhywun:

- nad ydynt yn aelod na'n swyddog mewn unrhyw awdurdod lleol
- rhywun nad ydynt ar unrhyw adeg o fewn cyfnod o 12 mis, gan ddechrau gyda dyddiad penodi'r unigolyn hwnnw, wedi bod yn aelod o neu'n swyddog mewn unrhyw awdurdod lleol; ac

- yn rhywun nad ydynt yn wŵr na gwraig na'n bartner sifil i unrhyw aelod neu swyddog o unrhyw awdurdod lleol.
- 1.3 O ran Cyngor Sir Ynys Môn, golygai hyn y bydd angen am bedwar aelod lleyg. Mae Mr Dilwyn Evans, sy'n aelod lleyg ar hyn o bryd, wedi mynegi ei ddymuniad i wasanaethu ail dymor pum mlynedd, sy'n rhywbeth a ganiateir yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (a'r Cyfansoddiad).
- 1.4 Bydd angen tri aelod lleyg ychwanegol er mwyn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

2. PROSES

- 2.1 Yn dilyn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fel y nodwyd eisoes, derbyniodd y Cyngor 13 o ffurflenni cais.
- 2.2 Cynhaliodd panel, a oedd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, ymarfer llunio rhestr fer ar 19 Ionawr 2022. Bu'r panel adnabod pedwar ymgeisydd ar gyfer eu cyfweld.

Bu panel, a oedd yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Prif Weithredwr presennol gyfweld y pedwar ymgeisydd ym mis Chwefror 2022. Bu'r panel ddewis y tri ymgeisydd canlynol i gael eu hystyried ar gyfer eu penodi:

- Michael Wilson, o Langefni, Ynys Môn
 - Sharon Warnes, o Pwllheli, Gwynedd
 - William Parry, o Rosneigr, Ynys Môn
- 2.3 Mae'r holl ymgeiswyr wedi derbyn eu gwahoddiad i gael eu hystyried ar gyfer eu penodi ac mae dau eirda derbyniol wedi eu derbyn ar gyfer pob un.
- 2.4 Yn unol â'r Cyfansoddiad presennol, paragraff 3.4.8.2.2, mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn argymhell penodiad yr aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo:
- dewis a phenodiad y tri ymgeisydd fel aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn argymhell eu penodiad i'r Cyngor Sir.
 - yr argymhelliad i'r Cyngor mewn perthynas â pharhad yr aelod lleyg presennol am ail gyfnod o bum mlynedd.